

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### **Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher 22ain Ionawr 2020 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

**Presennol;** Cyngorwyr Berwyn Hughes, Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Catrin Jones, Arfon Hughes, Sion Alun Roberts, Geraint Morgans, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is- Gadeirydd y Cynghorydd Berwyn Hughes**  
Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng. Iwan Foulkes, Robin Hughes a Berwyn Harding
2. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf – 4ydd Rhagfyr 2019:**

Atgoffodd y Clerc fod cofnodion dau gyfarfod wedi eu gyrru allan, sef y cyfarfod agored yn ol y drefn arferol, a'r rhan gaedig a oedd wedi eu gyrru allan yn gyfrinachol i aelodau Cyngor Mawddwy yn unig. Os oedd materion yn codi o'r cyfarfod caeedig, yna awgrymodd y Clerc unwaith eto y dylai'r Cyngorwyr ystyried gwneud y drafodaeth eto yn gaedig yng ngwyneb sensitifrwydd a chyfrinachedd y mater dan sylw.

Cadarnhawyd gofnodion cyfarfod o'r 4ydd Rhagfyr fel rhai cywir ar gynnig Idris Jones a'i eilio gan Hedd Pugh.

Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod caeedig o'r 4ydd Rhagfyr fel rhai cywir ar gynnig Idris Jones a'i eilio gan Hedd Pugh.

### **3. Materion yn codi .**

- a) **Gwaith ffensio llain o dir o dan y fynwent yn y Dinas**, adroddwyd y Clerc ei fod wedi siarad a Dafydd Brynson, ac y byddai'r gwaith yn cychwyn o fewn yr wythnos
- b) **Bwrdd gwybodaeth a oedd wedi ei daro i lawr yn Mallwyd** – adroddodd y Cyng Arfon Hughes fod y mater yn nwylo Hefin Pugh. Nodwyd y byddai angen meddwl am safle ychydig gwahanol iddo o flaen y Brigands wrth ei ail-osod – byddai rhaid trafod ymhellach.
- c) **Gwefan y Cyngor** – adroddodd y Clerc fod y gwaith o adeiladu'r wefan yn parhau. Roedd cyflwyniad yn saesneg bellach ar y wefan, a mwy o wybodaeth am ein cyfarfodydd a hawliau etholwyr. Roedd y polisiau canlynol wedi eu danfon allan i'r holl Gyngorwyr ar y 30ain o Ragfyr yn gofyn i bawb edrych yn fanwl arnynt;  
**Polisi Amgylcheddol**  
**Polisi Rhyddid Gwybodaeth**  
**Polisi Cyfle Cyfartal**  
**Polisi ar ddiogelu gwybodaeth a data (rheolau GDPR)**

Cyfeiriwyd at e-bost gan y Cyng. Arfon Hughes dyddiedig 9fed o Ionawr yn gofyn eglurhad ar ddau fater, ac esboniodd y Clerc y sefyllfa. Penderfynwyd - ar gynnig Cyng. Hedd Pugh a'i eilio gan Cyng Catrin Jones I dderbyn y polisiau yn eu cyfanrwydd ar gyfer Cyngor Mawddwy, ac y gellid eu rhoi ar y wefan.

Yna aethpwyd ymlaen i drafod yr angen I wneud **Adroddiad Bioamrywiaeth**, a dosbarthodd y Clerc fersiwn draft i'r Cyngorwyr. Aethpwyd drwyddo yn fanwl, a chywirwyd y rhan yn son am y mynwentydd, er mwyn cyfeirio atynt fel 'mynwent y Plwyf yn Mallwyd a Llanymawddwy'. Gyda'r cywiriad yma, penderfynwyd - ar gynnig Cyng. John P Jones a'i eilio gan Cyng Sion Alun Roberts ei dderbyn ar gyfer Cyngor Cymuned Mawddwy, ac y gellid ei rhoi ar y wefan.

- d) **Coeden Nadolig o flaen y Neuadd** – diolchwyd unwaith yn rhagor i'r Cynghorwyr Hedd Pugh, John P Jones, Idris Jones a Catrin Jones am gynorthwyo gyda'r gwaith o osod y goeden yn ddiogel o flaen y Neuadd, a threfnu efo'r goleuadau. Diolchwyd hefyd am ei chludo oddiyno ddechrau'r flwyddyn. Penderfynwyd y dylid cael twll pwrpasol ar gyfer y goeden o flaen y neuadd cyn y flwyddyn nesaf – gan y byddai hyn yn llawer mwy diogel. Atgoffwyd pawb fod Geraint Gwanas yn dymuno i'r Cyngor Cymuned wneud rhodd o £50 i Sioe Dinas fel cyfraniad ganddo yn ol yr arfer. Roedd hyn yn cael ei werthfawrogi yn fawr.
- e) **Cwyn yng nghyswllt giat yr Ysgol**, nid oedd ymateb pellach i law.
- f) **Cais llinell ffeibr i Lanymaddwy**, dywedodd y Cyng John P Roberts ei fod wedi roi eglurhad pellach ar e-bost i'r Clerc, sef *'fod y dogfennau i contract ffibr Llanymawddwy yn nwylo cadeirydd cwmni nod glas iw arwyddo. Unwaith bydd y cadeirydd yn ei arwyddo wedyn fydd gan BT 12 mis l orffen y cynllun .Hefyd diolchais i cwmni nod glas am gael defnyddio ei adnodd l weithredu y cynllun'*
- g) Materion Priffyrdd – adroddwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'r materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf. O ran biniau cadw graean, ni fyddai Cyngor Gwynedd yn ariannu hyn bellach. Gwelwyd bod angen pris cyn symud ymlaen. Nodwyd hefyd fod angen gwybod a oedd angen ail-lenwi rhai biniau o fewn y gymuned, a chyfeiriwyd at y bin wrth Wern Ddu oedd yn llawn dwr, a'r bin ar y ffordd i Cefn, Aberangell. Byddai rhaid trafod hyn eto.
- h) Gwaith yn yr Hen Fynwent a'r Ty Hers – Adroddodd Cyng Berwyn Hughes am gyfarfod a oedd wedi ei gynnal bore Sadwrn 11eg o Ionawr. Eglurwyd na fyddai modd gwneud dim hyd nes y byddai ymddiriedolaeth newydd wedi ei sefydlu. Gofynnwyd i'r Clerc roi hwn ar yr agenda at y cyfarfod nesaf.

### 3. Materion Cynllunio.

Roedd un cais wedi ei gylchredeg ers y cyfarfod diwethaf, sef *Diwygio Amod 4 a 17 o Ganiatad Cynllunio NP5/74/94A dyddiedig 23/01/2017 i amrywio defnyddiau drysau a fframiau ffenestri ac amrywio dyluniad yr annedd a gymeradwywyd yn Tan yr Allt Dinas Mawddwy*. Ni chafwyd unrhyw sylwadau i law

### 5. Materion Cyllid.

Aethpwyd ymlaen i gael trafodaeth bellach ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-2021. Yn y cyfarfod diwethaf, roedd taflen wedi ei roi i bawb yn nodi costau 2018-19, 2019-20 a'r hyn sy'n debygol ar gyfer 2020 – 21, a'r holl wybodaeth angenrheidiol.

Dosbarthwyd copi o 'spreadsheet' i'r holl Cynghorwyr yn dangos yr holl wariant tebygol mewn drafft ar gyfer 2020-21. Trafodwyd pob eitem yn fanwl, ac fe newidiwyd rhai manylion fel bo'r angen.

Atgoffwyd y Cynghorwyr fod angen penderfyniad am ein preasept ar gyfer 2020-21 erbyn y 24ain o Ionawr 2020. Penderfynwyd, ar gynnig Cyng. Arfon Hughes a'i eilio gan Cyng Geraint Morgans i gadw y preasept yr un swm ar gyfer 2020/2021, sef £8,820.

Nodwyd nad oedd yswiriant ar gyfer gwaith torri gwair y contractwr Hefin Davies wedi ei dalu, a chytunwyd i dalu'r swm dyledus, sef £111.71.

Roedd cais am arian i law gan Clybiau Ffermwyr Ieuaic Meirionnydd. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i dalu £400 i'r mudiad yn Sirol, a £400 i'r Clwb lleol yn Dinas Mawddwy. Os na fyddai y Clwb yn lleol am ei dderbyn, rhoddwyd caniatad i'r Clerc i dalu y swm cyfan, sef £800 i'r Sir. (cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Hedd Pugh ac Arfon Hughes pan drafodwyd hyn)

### 6. Gohebiaeth.

Roedd un eitem o ohebiaeth, sef manylion ymgynghoriad yng nghyswllt Cynllun datblygu Lleol Powys, a gwelwyd nad oedd angen ymateb.

## 7. Unrhyw Fater arall.

- a) Roedd angen atgoffa yr Adran Cefnffyrdd am ein pryder am y ceblau hen sistem deledu y Dinas.
- b) Roedd pryder yn parhau am sbwriel yn cael ei adael ar hyd ffyrdd o fewn y gymuned.
- c) Trafodwyd y cyfyngiad teithio 40mya drwy Ddinas Mawddwy, ac yn dilyn trafodaeth faith, penderfynwyd y dylem ofyn am leihau y cyfyngiad i 20mya ger y fynedfa i'r ysgol. Roedd hyn yn golygu y dylem ofyn am leihad i 20mya lle mae'r golau yn fflachio ar hyn o bryd uwchlaw Minllyn, a chael cyfyngiad newydd drwy oleuadau yn fflachio i 20mya wrth ddod at y Buckley Arms o gyfeiriad Mallwyd. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu i'r Uned Cefnffyrdd.
- d) Gofynnwyd a oedd canllawiau Cynghorwyr newydd wedi eu gyrru i'r ddau Gynghorydd newydd, sef Sion Alun Roberts a Robin Hughes. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi galw gyda'r ddau ohonynt yn dilyn eu penodiad, ac wedi rhoi y papurau perthnasol iddynt.
- e) Roedd yna adroddiad fod y lori graeanu sy'n dod o gyfeiriad yr A458 yn aml yn rhedeg allan o raean cyn cyrraedd yr A470, ac roedd hyn yn bryder. Roedd angen tynnu sylw i hyn.
- f) Cyfeiriwyd at y llanast a wneir ar ochr y ffordd yn Dolybont gan loriau coed. Roedd rhaid ceisio cael loriau i gadw i'r ffordd er mwyn osgoi gweld hyn yn digwydd.
- g) Mynegwyd siom fod ffordd Llanymawddwy ym mhen ucha'r cwm wedi ei chau yn ddirybudd yn ddiweddar. Roedd adroddiad fod angen newid polyn BT ar fyr rybudd ei mwyn diogelach defnyddwyr y ffordd. Dywedodd y Cyng J P Roberts ei fod wedi codi'r mater eisoes, a bod y polyn yn y cyflwr yma ers peth amser, ac y byddai yn dilyn hyn i fynny eto gyda'r Adran Briffyrdd. Gofynnwyd i'r Clerc hefyd i ysgrifennu ar hyn.
- h) Adroddwyd bod ffos ger y grid gwartheg ar Bwlch y Groes wedi cau, a bod dwr ar y ffordd yn aml. Roedd hyn yn arbennig o berygys ar adegau o rew ac eira, ac angen blaenoriaeth a sylw ar frys.
- i) Roedd angen clirio tyfiant a rhodedendron ar lwybr rhif 8 tu ol i faes carafannau Ty'n Pwll – tua 100 llath o Bont Gerrig.
- j) Adroddodd y Cyng. Idris Jones a'r Clerc am gyfarfod Un Llais Cymru yr oeddynt wedi mynychu ar yr 8fed o Ionawr.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 11eg o Fawrth yn Neuadd Dinas Mawddwy am 7.30 O'R GLOCH.**